Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk

Pennaeth/Headteacher:
Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy:
Miss Bethan Jenkins

**13.5.25**

**Arolwg Estyn – 2.6.25 – 4.6.25**

Annwyl Rieni a Gwarcheidwad,

Rydym wedi cael gwybod heddiw y bydd yr ysgol yn cael ei **harolygu gan Estyn o'r 2il i'r 4ydd o Fehefin 2025.** Rydym eisoes wedi rhannu'r newyddion gyda'r staff a byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth gyda ein disgyblion yr wythnos hon.

Er mwyn blaen gynllunio cymerwn y cyfle i'ch hysbysu y bydd cyfle swyddogol i chi fel rhieni a gofalwyr gyfarfod gyda'r Arolygwyr ar **brynhawn Llun, yr 2il o Fehefin am 3:30yp**. Maent wedi gofyn yn garedig i beidio â dod â'ch plant i'r cyfarfod felly gofynnwn yn garedig I chi wneud trefniadau ar eu cyfer. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ein neuadd fach.

Yn ogystal, gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur swyddogol isod sy'n cael ei weinyddu a'i goladu yn uniongyrchol gan Estyn. Byddai'n cael ei werthfawrogi'n fawr pe bai canran uchel o rieni a gofalwyr yn derbyn y cynnig i fynegi barn drwy'r holiadur yn ogystal â mynychu'r cyfarfod swyddogol.

Mae'r arolwg yn gyfle gwych i ni ddathlu llwyddiannau'r ysgol. Bydd hwn hefyd yn rhoi'r cyfle i'r Arolygwyr gyfarfod â'n disgyblion cwrtais, cyfrifol a charedig, ac rwy'n gwybod y byddant yn cynrychioli ein ysgol a'n cymuned gyda balchder.

Byddwn nawr yn bwrw ati i baratoi ar gyfer yr arolwg a chymeraf y cyfle i ddiolch i chi o flaen llaw am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,

Mr M Tomos

**Pennaeth**

| | | |
|---|---|---|
| Holiadur i rieni / gofalwyr: | | https://www.smartsurvey.co.uk/s/RXQ4XO/ |

**Pwysig: Peidiwch a chlicio'r botwm yn ôl ar y porwr unwaith y bydd yr holiadur wedi'i gyflwyno gan y gallai hyn arwain at gofnodi ymatebion dyblyg.**

Bydd yr holiaduron ar-lein ar gael tan **11yh ar 18/05/2025.**

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB
Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663

Ysgol Glan Morfa
www.ysgolglanmorfa.co.uk

**Pennaeth/Headteacher:**
Meilir Tomos CPCP/NPQH
**Dirprwy/Deputy:**
Miss Bethan Jenkins

**13.5.25**

**Estyn Inspection 2.6.25 – 4.6.25**

Dear Parents and Guardians,

We were informed today that the school will be **inspected by Estyn from the 2nd-4th of June 2025**. We have informed the staff and we will share more information with our pupils this week.

In order to plan ahead we would like to take this opportunity to inform you that there will be an official opportunity for you as parents and guardians to meet the Inspectors on **Monday 2nd of June at 3:30pm**. They have asked kindly that children do not attend the meeting therefore please make arrangements. The meeting will be held in the small hall.

In addition, we kindly ask you to complete the official questionnaire below which is administered and collated directly by Estyn. It would be greatly appreciated if a high percentage of parents and carers accepted the offer to share their opinion through the questionnaire as well as attending the official meeting.

The inspection is a great opportunity for us to celebrate the school's successes. It will also give the Inspectors the opportunity to meet our respectful, kind and responsible pupils who I know will represent our school and community with great pride.

We are now focusing on preparing for the inspection and I take this opportunity to thank you in advance for your continued support.

Yours sincerely,

Mr M Tomos

**Headteacher**

| | | |
|---|---|---|
| Questionnaire for parents and guardians. | | https://www.smartsurvey.co.uk/s/RXQ4XO/ |

**Important: Do not click the back button on the browser once the questionnaire has been submitted as this could lead to duplicate responses being recorded.**

The online questionnaires will be available until **11pm on 18/05/2025.**